**LC263**

# Cynulliad Cenedlaethol Cymru

# The National Assembly for Wales

**ADRODDIAD GAN Y PWYLLGOR DEDDFAU LEGISLATION COMMITTEE REPORT**

**Rheoliadau Cyfyngiadau Mewnforio ac Allforio (Clwy'r Traed a'r Genau) (Cymru) (Rhif 6) 2001**

**Y Cefndir**

Mae'r rheoliadau hyn yn diddymu Rheoliadau Rhif 5 sy'n dwyn yr un teitl ac yn eu disodli. Fel yn achos Rheoliadau Rhif 5 maent yn gweithredu cyfyngiadau ar fewnforio ac allforio anifeiliaid a chynhyrchion anifeiliaid penodol. Mae hyn yn cydymffurfio â chyfres o Benderfyniadau gan y Comisiwn.

Yr oedd Rheoliadau Rhif 5 i fod yn gymwys tan 18 Mai. Ond maent wedi'u disodli bellach gan y rheoliadau presennol sy'n gymwys yn yr un modd tan 18 Mai.

**Rheol Sefydlog 11.5**

Nid oes dim pwyntiau wedi'u nodi fel materion y mae angen i'r Pwyllgor wahodd y Cynulliad i roi sylw arbennig iddynt.

**Sylwadau Cyffredinol**

Fel yn achos offerynnau statudol blaenorol ynghylch clwy’r traed a’r genau, mae’r rheoliadau hyn wedi’u gwneud yn uniaith Saesneg.  Deellir mai’r rheswm am hyn oedd y ffaith bod rhaid gwneud y rheoliadau mewn byr amser.  Mae’r Pwyllgor wedi ysgrifennu o’r blaen at Weinidog perthnasol y Cynulliad mewn perthynas â hyn, a bydd yr ymateb i’r llythyr hwnnw yr un mor berthnasol yn yr achos hwn.  Mae’n rhywbeth penodol i sylwi arno yn y rheoliadau hyn fod y testun i raddau helaeth yr un fath bob tro â’r rheoliadau cynharach yn y gyfres.

**Y Nodyn Esboniadol**

Mae’r Pwyllgor yn falch o nodi bod y Nodyn Esboniadol bellach yn dangos y dyddiad y mae’r rheoliadau yn peidio â bod yn gymwys.

**Mick Bates AC**
**Cadeirydd y Pwyllgor Deddfau**

22 Mai 2001